Cymru Werdd

Gwanwyn 2009

Papurnewydd Yr Blaid Werdd Dros Cymru

Plaid Werdd Cymru

Taranfollt niwclear Llafur/Plaid i Gymru

Mae arweinwyr Plaid Cymru a Llafur wedi rhoi eu cefnogaeth i'r cynnig i gael gorsaf niwclear newydd ar Ynys Môn, yng ngogledd Cymru, yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear i enwebu tir yn ymyl yr Wylfa – ynghyd â deg safle arall yn Lloegr – i'w hystyried fel lleoliadau ar gyfer gorsafoedd niwclear newydd.

Y llynedd cynhyrchodd y Cynulliad ddogfen ymgynghori yn dweud y gallai Cymru fod yn hunangynhaliol mewn ynni adnewyddadwy. Os gall Cymru gynhyrchu ei hynni adnewyddadwy ei hun pam dylai hi gael gorsaf niwclear newydd? Mae costau anferth ynghlwm wrth waredu gwastraff niwclear sy'n gorfod cael ei storio am filoedd o flynyddoedd. Ni allai gorsaf niwclear newydd lenwi'r bwlch ynni dros y deng mlynedd nesaf oherwydd mai'r dyddiad cynharaf y gallai ddechrau gweithredu fyddai 2025 – a hynny pe na bai unrhyw oedi mewn cynllunio, adeiladu a chomisiynu.

Mae wedi dod i'r amlwg bod ynni niwclear yn beryglus yn ei hanfod. Mae rhannau o Gymru yn dal i ddioddef dan gyfyngiadau yn dilyn trychineb niwclear Chernobyl yn 1986. Byddai damwain niwclear ar Ynys Môn ar yr un raddfa â Chernobyl yn gwneud Ynys Môn i bob pwrpas yn anaddas i fyw arni. Mae'r amcangyfrifon isaf gan dîm o'r Cenhedloedd Unedig wedi amcangyfrif y gallai hyd at 9,000 o bobl farw yn y pen draw o ganlyniad uniongyrchol i ddamwain niwclear Chernobyl. Mae astudiaethau eraill wedi awgrymu colledion llawer uwch.

Mae economïau mawrion eraill yn y byd wedi datgan eu gwrthwynebiad i ynni niwclear – megis yr Almaen, Norwy a Denmarc. Maen nhw wedi llwyddo i sicrhau lefelau sylweddol uwch o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy nag yng Nghymru. Mae gan yr Almaen 300 gwaith yn fwy o ynni solar a 10 gwaith mwy o ynni gwynt na'r DG. Mae gwleidyddion yr Almaen, dan arweiniad y Gwyrddion, wedi cael yr ewyllys wleidyddol i arwain y ffordd. Ac o ran effeithiolrwydd ynni, mae ffigurau'r Llywodraeth ei hun yn dangos bod potensial i arbed dros 30% o'r holl ynni a ddefnyddir yn y DG dim ond trwy fesurau effeithiolrwydd a fyddai nid yn unig yn arbed arian ond hefyd yn cael gwared â'r angen am ynni niwclear.

Dwedwch 'Na' i niwclear gyda'r Gwyrddion

Y Gwyrddion yn cefnogi fferm wynt ar y môr

Mae Gwyrddion Gogledd Cymru wedi rhoi eu cefnogaeth i fferm wynt Gwynt y Môr a gaiff ei lleoli 8 milltir oddi ar arfordir Llandudno. Bydd y fferm wynt yn cynhyrchu digon o drydan i 680,000 o gartrefi. Bydd y 250 o dyrbinau wedi eu lleoli 8 milltir oddi ar yr arfordir a byddant yn cynhyrchu tua degfed rhan o anghenion trydan Cymru ac yn torri allyriadau carbon 2 filiwn o dunelli.

Meddai Joe Blakesley, Cynghorydd y Blaid Werdd ar Gyngor Tref Conwy, "Mae hyn yn newyddion da iawn a bydd yn helpu tuag at gwrdd â thargedau allyriadau nwyon ty gwydr Cymru ac yn ehangach yn y DG. Er hynny, mae Cymru a'r DG wedi bod yn araf iawn yn datblygu'r potensial sydd gennym i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Dim ond rhyw 4% o'i thrydan y mae Cymru'n ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy tra bod gwledydd eraill wedi rasio ymlaen dros y blynyddoedd ac yn y broses wedi creu llawer o swyddi gwyrdd."

Meddai ymhellach, "Mae Denmarc eisoes yn cynhyrchu 28% o'i hynni o ffynonellau adnewyddadwy ac mae ganddi darged tymor byr o gynhyrchu 50% o'i hynni o'r gwynt yn unig."

Bargen Newydd Werdd i ymladd y dirwasgiad

Mae Plaid Werdd Cymru yn galw am Fargen Newydd Werdd i Gymru i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng economaidd a'n symud oddi wrth y polisïau economaidd aflwyddiannus sydd wedi dod â ni mor agos at drychineb economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r Fargen Newydd Werdd i Gymru yn ymateb i'r diffyg gweithredu cydlynus ar hyn o bryd gan wleidyddion ac mae wedi ei seilio ar adeiladu economi wirioneddol gynaliadwy, gan fyw o fewn ein hadnoddau yn amgylcheddol a sicrhau cyfiawnder cymdeithasol gwirioneddol.

Meddai Jake Griffiths, Arweinydd Plaid Werdd Cymru a'r ymgeisydd blaen yn etholiadau Ewrop, "Nid yw Cymru wedi profi cwymp economaidd fel hwn ers degawdau ac os na chaiff y polisïau cywir eu rhoi ar waith bydd cymunedau'n cael eu dinistrio."

"Byddai Bargen Newydd Werdd i Gymru'n cefnogi adeiladu cymunedau gwirioneddol gynaliadwy drwy greu miloedd o swyddi. Byddai cynnydd sylweddol mewn cyllid i ganiatáu i Gymru wireddu ei photensial llawn a bod yn hunangynhaliol o ran ynni wedi'i gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy – gallai pob adeilad gynhyrchu peth o'i ynni ei hun.

"Gellir a dylid gwella effeithiolrwydd ynni ein cartrefi a'n busnesau yn sylweddol fel bod Cymru'n dod yn flaengar mewn arferion gorau yn hytrach nag esiampl o wastraff. Dylid annog pobl i brynu bwyd, nwyddau a gwasanaethau o ffynonellau lleol, sydd nid yn unig yn darparu gwaith yn lleol ond sydd hefyd yn lleihau ôl troed carbon cyffredinol cymdeithasau. Byddai busnesau lleol yn cael mwy o gefnogaeth ariannol tra byddai gweithredoedd byrbwyll arianwyr a bancwyr y ddinas yn cael eu rheoleiddio."

Cyhoeddwyd gan John Matthews (Plaid Werdd Cymru), Saint Maur, Glancynon Terrace, Abercynon CF45 4TG . Argraffwyd gan Trinity Mirror Ltd, Cardiff Tidal Sidings, Portmanmoor Industrial Estate, Cardiff, CF24 5HD ar bapur 100% ailgychedig .

Pleidleisiwch dros y Blaid Werdd ar y 4ydd o Fehefin 2009!

Mae Etholiadau Ewrop ar y 4ydd o Fehefin. Dim ond un o bob chwe phleidlais sydd ei hangen ar Blaid Werdd Cymru i ethol ASE cyntaf Plaid Werdd Cymru i ymuno â'r ASEau Gwyrdd, Caroline Lucas a Jean Lambert, yn Senedd Ewrop. Mae'r etholiadau ar sail cynrychiolaeth gyfrannol, felly bydd pob pleidlais i'r Blaid Werdd yn cyfrif!

Cefnogi Dinas Noddfa Abertawe

Yn dilyn ymgyrch lwyddiannus gan bobl leol, yn cynnwys Keith Ross o Blaid Werdd Abertawe, mae'r ddinas wedi ymuno'n ffurfiol â mudiad Dinas Noddfa i ddarparu croeso i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn y ddinas. Mae Dinas Noddfa yn fudiad cenedlaethol o bobl leol, grwpiau cymunedol a sefydliadau sydd wedi'u huno mewn dymuniad cyffredin i droi eu dinas yn fan croesawgar i bobl sy'n ceisio noddfa rhag rhyfel neu erledigaeth.

Cefnogi dewis amgen yn lle Morglawdd Hafren

Mae Gwyrddion Cymru'n cefnogi datblygu potensial ynni adnewyddadwy moryd yr Hafren yn llwyr ond byddai'r morglawdd sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd yn achosi niwed sylweddol i'r amgylchedd ac ni fyddai'n dechrau cynhyrchu am nifer o flynyddoedd.

Mae'r morglawdd y mae'r Llywodraeth yn ei ffafrio yn gambl anghyfrifol a gwastrafflyd sydd ag effeithiau negyddol sylweddol ar yr amgylchedd. Byddai technolegau eraill dichonadwy yn fwy ymarferol, yn fwy hyblyg, yn cynnig gwell gwerth-am-arian ac yn niweidio llai ar yr amgylchedd.

Mae astudiaethau wedi dangos y byddai morglawdd ar yr Hafren yn cael effaith andwyol ar ecoleg y foryd, sy'n safle bywyd gwyllt a warchodir yn rhyngwladol.

AS Llafur yn galw am symud hediadau o Heathrow i Gaerdydd

Mae Ann Clwyd, yr AS dros Gwm Cynon, wedi galw ar i rai o hediadau Heathrow gael eu symud i faes awyr Caerdydd oherwydd y dybiaeth gyfeiliornus y byddai hynny'n lleihau allyriadau CO2. I fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd mae angen i ni leihau nifer yr hediadau awyr yn hytrach na'u symud o un maes awyr i un arall - nid mater o wrthwynebu trydydd llwybr glanio yn Heathrow yn unig yw hyn!

Yn wir, mae'r bwriad i godi trydydd llwybr glanio yn Heathrow a galwad Ann Clwyd am drosglwyddo hediadau i Gaerdydd yn ymddangos yn gynyddol ddarfodedig. Erbyn y caiff y llwybr glanio ei godi, bydd cyfnod teithio rhad wedi dod i ben a bydd y dirwasgiad wedi gwthio nifer o gwmnïau hedfan i ebargofiant. Wrth i ddiwydiannau eraill leihau eu hallyriad carbon, bydd hedfan yn cyfrannu cyfran uwch ac uwch, a fydd yn annerbyniol i unrhyw lywodraeth sy'n honni cymryd newid yn yr hinsawdd o ddifrif.

Mae Cyfeillion y Ddaear yn tynnu sylw at natur chwerthinllyd y safbwynt hwn yn eu hachos yn erbyn ehangu meysydd awyr, gan nodi "erbyn 2050, yn seiliedig ar eu rhagolygon eu hunain, gallai'r Llywodraeth ddadlau y dylai pumed llwybr glanio ac wythfed terminws fod ar gael".

20 yn Ddigon ar bob stryd breswyl

- **Plaid Cymru/Llafur yn colli cyfle i wella diogelwch ar y ffyrdd**

Mae'r Gwyrddion wedi galw am gyflwyno 20mya ar bob stryd breswyl. Mae ardaloedd preswyl 20 mya, a gefnogir gan grwpiau diogelwch ar y ffyrdd, wedi dechrau cael eu cyflwyno ledled y DG. Er hynny nid yw ardaloedd preswyl 20 mya wedi eu cynnwys yn ymgynghoriad y Cynulliad ar ddiogelwch ar y ffyrdd.

Mae damweiniau traffig wedi lleihau 60% a marwolaethau a damweiniau i blant 67% mewn ardaloedd 20mya. Meddai Ann Were, Maer Tref Mynwy ac ymgeisydd y Blaid Werdd yn etholiad Ewrop, "Damweiniau ar y ffyrdd yw prif achos marwolaethau i blant a phlant sy'n cerdded sy'n wynebu'r perygl mwyaf gan draffig. Os bydd yr ymgyrch hon yn sicrhau bod bywyd un plentyn yn cael ei achub neu'n atal un plentyn rhag cael damwain ddifrifol bydd wedi bod yn werth chweil. Dim ond ymdrechion cyfyngedig i wella diogelwch ar y ffyrdd sydd wedi digwydd yn ninasoedd, trefi a phentrefi Cymru. Nid oes neb eisiau byw ar stryd beryglus na allwch gerdded yn groes iddi oherwydd traffig sy'n

symud yn gyflym. Mantais arall yw nad yw ardaloedd 20 mya fel arfer yn gofyn am fesurau tawelu traffig costus ac amhoblogaidd fel twmpathau cyflymder."

Rhoi terfyn ar dreillio cregyn bylchog yn ardal gadwraeth Bae Aberteifi

- **Y Gwyrddion yn ymgyrchu i amddiffyn ardal gadwraeth forol**

Mae aelodau Plaid Werdd Ceredigion wedi cymryd rhan weithgar mewn ymgyrch i roi terfyn ar dreillio cregyn bylchog yn ardaloedd cadwraeth Bae Aberteifi. Treillio cregyn bylchog yw un o'r ffurfiau mwyaf dinistriol o bysgota a ddyfeisiwyd erioed.

Meddai Leila Kiersch, Ymgeisydd Seneddol yng Ngheredigion, "Dydyn ni yn y Blaid Werdd ddim yn gwrthwynebu pysgota ond mae gennym ddyletswydd gofal tuag at rywogaethau eraill yr ydym yn rhannu'r blaned brydferth hon gyda nhw. Mae gan Fae Aberteifi ddwy Ardal Gadwraeth Arbennig. Mae'r rhain wedi eu dynodi er mwyn amddiffyn rhywogaethau penodol sy'n brin ac a allai, heb ein gwarchodaeth ni, ddiflannu. Mae llawer o bobl yn dod o bell ac agos i weld dolffiniaid trwynbwl. Mae ein diwydiant twristiaeth yn enfawr ac yn dibynnu ar fôr sydd nid yn unig yn fendigedig i ymdrochi ynddo ond sydd hefyd yn llawn bywyd gwyllt. Gallwn harneisio cyfoeth Bae Aberteifi heb ddinistrio gwaelod y môr sy'n sail i'r holl ecosystem."

Ffolineb Plaid/Llafur am draffordd yr M4

Mae Dirprwy Brif Weinidog y Cynulliad, Ieuan Wyn Jones, yn dal i gefnogi codi traffordd newydd yr M4 o amgylch Casnewydd. Mae hyn yn dilyn tro pedol gan Blaid Cymru ar gefnogi Ffordd Liniaru'r M4. Mae cefnogaeth Ieuan i'r ffordd yn mynd yn groes i'r astudiaeth werthuso swyddogol a ganfu mai Ffordd Liniaru'r M4 oedd y dewis gwaethaf yn ariannol ac yn amgylcheddol a'r trydydd allan o bedwar o ran lleddfu tagfeydd traffig.

Roedd lefelau traffig wedi bod yn codi'n gyflymach yng Nghymru nag yn unrhyw ran arall o'r DG. Byddai codi Ffordd Liniaru'r M4 yn helpu i ddarparu lle ar y ffyrdd i'r twf hwn ddigwydd yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru ac yn ei gwneud yn anodd iawn sicrhau'r gostyngiadau mewn nwyon t^y gwydr y mae eu hangen arnom ar frys. Byddai'r Gwyrddion yn gwella cludiant cyhoeddus lleol, cerdded a beicio ac yn lleihau'r angen i deithio. Byddai'r draffordd arfaethedig yn torri ar draws nifer o ardaloedd pwysig o ran cadwraeth bywyd gwyllt ar Wastadeddau Gwent.

Meddai Jake Griffiths, Arweinydd Plaid Werdd Cymru a'r ymgeisydd blaen yng Nghymru yn etholiadau Ewrop, "Roedd gobaith y byddai cael Plaid yn rhan o'r Llywodraeth yn dod â syniadau newydd i mewn i gynllunio cludiant yng Nghymru a herio rhaglen adeiladu ffyrdd Llafur Cymru ond ddigwyddodd hynny ddim. Mae cefnogaeth Ieuan Wyn Jones i Ffordd Liniaru'r M4 wedi dangos mai busnes fel arfer yw hi o ran twf mewn traffig ar y ffyrdd a'r allyriadau nwyon ty gwydr, llygredd awyr, a difrod i gynefinoedd naturiol sy'n dilyn hynny."

Dal yn wystlon dros academi hyfforddiant milwrol wedi'i phreifateiddio

Cefnogwyr yn cynnwys gwneuthurwyr arfau amlwladol a Llafur/Plaid

Mae'r addewid am swyddi yn drech nag unrhyw bryderon am y cynnig, a gefnogir gan Lafur/Plaid Cymru, i leoli academi filwrol wedi'i phreifateiddio yn Sain Tathan ar gyrion Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cefnogwyr y cynllun wedi amcangyfrif nifer y swyddi y gellid eu creu yn rhy uchel a bydd yr ychydig swyddi sydd ar gael i bobl leol yn rhai isel eu sgiliau, ac isel eu cyflogau.

Mae ymrwymiad parhaus y Llywodraeth i Fentrau Cyllid Preifat a chefnogwyr ariannol preifat, yn enwedig gwneuthurwyr arfau rhyngwladol, i'r academi filwrol arfaethedig yn Sain Tathan, wedi cael ei feirniadu gan Jake Griffiths, Arweinydd Plaid Werdd Cymru. Nid yw'n glir faint o ddylanwad a fydd gan y cefnogwyr preifat dros yr hyfforddiant a ddarperir yn yr academi. Mae consortiwm Matrix yn cynnwys y gwneuthurwr arfau rhyngwladol Raytheon.

Defnyddiwyd bomiau chwalu bynceri Raytheon gydag effeithiau dinistriol yn y rhyfel diwethaf rhwng Israel a Libanus yn 2006 pryd, mewn un digwyddiad yn Qana, trawyd adeilad gan ladd 60 o bobl yn cynnwys 34 o blant. Mae taflegrau chwalu bynceri Raytheon yn dal yn rhan o arfau byddin Israel ac mae'n debygol eu bod wedi cael eu defnyddio yn ddiweddar yn erbyn y Palestiniaid yn Gaza.

Meddai Jake Griffiths, "Gydag ymrwymiad ariannol mor fawr gan gwmnïau preifat, fel y gwneuthurwr arfau Raytheon, mae'n amhosibl credu na fyddant yn gallu gorchymyn pwy gaiff a phwy na chaiff eu hyfforddi ar y safle. A gaiff pobl sy'n cymryd rhan mewn rhyfeloedd y mae Llywodraethau Prydain/Cymru a'u dinasyddion yn credu eu bod yn anghyfiawn – megis yr ymosodiadau erchyll gan Israel ar Gaza – eu caniatáu i gael hyfforddiant ar y safle yn Ne Cymru?"

"Faint o amser gymer hi nes y byddwn yn protestio yn Ne Cymru am erchyllterau milwrol a gyflawnwyd o amgylch y byd gan lywodraethau tramor neu fusnesau diogelwch preifat sydd wedi eu hyfforddi yn yr academi hyfforddiant milwrol yn Ne Cymru? Mae'n hanfodol bod byddin y DG wedi ei hyfforddi'n dda ond mae'r cynllun fel y mae wedi ei gynllunio yn golygu preifateiddio hyfforddiant milwrol gan ganiatáu i fyddinoedd tramor a busnesau diogelwch preifat gael eu hyfforddi yno."

Meddai Sam Coates, Myfyriwr yng Nghaerdydd ac Ymgyrchydd dros y Blaid Werdd, "Wnes i ddim ymladd ymgyrch lwyddiannus i gael Prifysgol Caerdydd i dynnu ei harian allan o'r fasnach arfau dim ond er mwyn gweld yr un cwmnïau, a rhai gwaeth, yn cael eu noddi gan y llywodraeth i waethygu gwrthdaro ledled y byd."

"Byddai'r dde'n dweud y gellir preifateiddio popeth ar wahân i'r fyddin. Mae'r prosiect hwn yn mynd hyd yn oed ymhellach. Mae Plaid Cymru, ynghyd â'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, wedi cydymffurfio ac maen nhw'n cefnogi'r academi hyfforddiant milwrol wedi'i phreifateiddio".

Gwasanaeth Trên Wrecsam i Lundain wedi ei achub

Mae trenau Virgin wedi gollwng eu cynnig i redeg gwasanaeth uniongyrchol o Sir Amwythig i Lundain a oedd yn bygwth y gwasanaeth presennol o Wrecsam i Lundain a redir gan y Wrexham and Shropshire Company.

Meddai Kay Roney, ymgeisydd Plaid Werdd Cymru yn etholiad Ewrop, "Mae'n newyddion gwych i Wrecsam a'i gwasanaeth trên uniongyrchol i Lundain. Mae'r Wrexham and Shropshire wedi ychwanegu gwasanaethau y mae llawer o angen amdanynt i'n rhwydwaith ac mae cadw eu gwasanaethau i fynd yn flaenoriaeth uchel. Pe bai Plaid Werdd Cymru'n cael ei ffordd, byddai'r rheilffyrdd yn cael eu hailgenedlaetholi fel bod y rheilffyrdd yn cael eu rhedeg unwaith eto er lles y cyhoedd, yn hytrach na budd masnachol".

Beirniadu Safonau Tai Abertawe

Nid oes unrhyw amserlen yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru yn Abertawe. Mae'r Gwyrddion yn galw ar i Gyngor Abertawe gymryd cyfrifoldeb am Dai Cyngor a bwrw ymlaen â'r gwaith o wella safonau tai.

Meddai Keith Ross o Blaid Werdd Abertawe, "Bron 8 mlynedd ar ôl cyhoeddi Strategaeth Dai Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, nid oes gan Gyngor Abertawe unrhyw amserlen ar gyfer bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae hyn yn ei eithriadol o siomedig."

Ymgyrchydd Gwyrdd yn amddiffyn Parc Caerdydd

Mentrodd ymgyrchydd y Blaid Werdd, Anne Greagsby, allan i'r eira gydag ymgyrchwyr eraill o Gynghrair Parc Bute ym mis Chwefror i rwystro coed rhag cael eu torri i lawr ym Mharc Bute Caerdydd.

Meddai Ann Greagsby, "Roedd y cyngor i fod i ymgynghori â phobl Caerdydd yn gyntaf ond fe roeson nhw stori fach yng nghefn papur newydd. Dydw i ddim yn galw hynny'n ymgynghori. Mae hwn yn barc rhestredig Gradd I; pe bai adeilad rhestredig Gradd I yn cael ei ddinistrio, mae'n siwr y byddai digon o dwrw."

Cyfraniadau gan Keith Ross, John Matthews, Leila Kiersch, Kay Roney, Ann Were, Sam Coates, Joe Blakesley. Ann Greagsby.
Cynllunwyd a golygwyd gan Jake Griffiths. Lluniau gan British Wind Energy Association, Gwyn Williams, Dan Holder a Dogfael.

Merthyr a Chaerdydd yn 'rasio' i losgi

Fydd llosgi gwastraff ddim yn gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd ac mae pryderon amgylcheddol ac iechyd

Mae'r Gwyrddion wedi beirniadu'r 'ras i losgi' gwastraff gan Gynghorau Caerdydd a Merthyr Tudful. Er bod ailgylchu gwastraff domestig yng Nghymru wedi cynyddu i 32% mae'n dal ymhell y tu ôl i rannau eraill o Ewrop – mae Fflandrys (gogledd Gwlad Belg) yn ailgylchu dros 70 y cant o'i gwastraff trefol, yr Iseldiroedd 64%, yr Almaen ac Awstria ar neu dros 60%. Bydd llosgi'n dileu'r ysgogiad i gynyddu ailgylchu yng Nghymru a lleihau faint o wastraff a gynhyrchir y pen. Meddai John Matthews, ymgeisydd ASE Plaid Werdd Cymru, "Dylai Cynghorau Caerdydd a Merthyr Tudful ein hannog i leihau faint o wastraff yn ydym yn ei gynhyrchu, i ailddefnyddio ac ailgylchu'r hyn sy'n weddill yn hytrach na llosgi'r hyn sydd mewn gwirionedd yn adnodd gwerthfawr gan fod pryderon amgylcheddol ac iechyd yn gysylltiedig â hynny. Os rhoddir caniatâd ar gyfer y llosgyddion hyn bydd rhaid i awdurdodau lleol ddarparu deunydd i'w losgi mewn modd gwastrafflyd iawn am lawer o flynyddoedd i ddod. Dim ond hanner lefelau ailgylchu'r rhannau o Ewrop sy'n perfformio orau yr ydym wedi ei gyrraedd eto ac rydym yn dal i gynhyrchu symiau mawr o wastraff y pen."

"Myth sy'n cael ei ledaenu gan y cwmnïau y tu cefn i'r cynigion hyn yw y bydd y llosgyddion yn helpu i wrthsefyll newid hinsawdd. Mae llosgi o'r math hwn yn aneffeithiol iawn. Mae pryderon hefyd am allyriadau gwenwynig a chael gwared â'r lludw."

Meddai ymhellach, "Byddai'n rhaid dod â symiau enfawr o wastraff i mewn i fwydo'r llosgyddion hyn gan greu anhrefn lleol oherwydd symudiadau lorïau. Mae pobl Merthyr eisoes yn dioddef oddi wrth safle glo brig dadleuol Ffos-y-Fran – dyma'r peth olaf y maen nhw ei angen !"

Un Byd. *Un Cyfle.*

Eisiau gwybod mwy?

Gallwch weld newyddion diweddaraf Plaid Werdd Cymru ar-lein ar:

www.wales.greenparty.org.uk

Cyswllt drwy'r post:
Freepost Wales Green Party

Ar y ffôn:
0845 4581026

Neu drwy e-bost:

❒ Gallwn helpu i ddosbarthu taflenni yn fy stryd leol neu arddangos poster.
❒ Cofrestrwch fi fel cefnogwr i Blaid Werdd.
❒ Hoffwn roi rhodd – i greu cynnydd go iawn.
❒ Hoffwn gael gwybod mwy am Blaid Werdd Cymru.

Name: .....Tel: .....
Email: .....
Address: .....
.....Postcode .....

European Elections June 4th

A Bright Green Future

Vote Green in Wales

Greens Achieve

When Greens get elected, people like what they get and vote for more. Here are some examples of our work:

Green MEPs have:

- forced a ban on dangerous chemicals in children's toys
- won parliamentary support for an investigation into supermarket monopolies
- secured better conditions for Europe's farm animals
- forced an investigation into the UK government's subsidies to nuclear power
- fought hard for the rights of minority groups
- called for recognition of the impact that long working hours have on our health.

Greens around the UK:

• raised £3million for road safety in Kirklees
• provided £700,000 for energy saving in homes in Norwich
• raised £320,000 for playgrounds in Oxford.

Greens in London:

• helped to introduce a Living Wage to tackle poverty pay
• tripled the money available for improving cycling and walking around the city.

Dealing with the Economy: *A Green New Deal*

The Wales Green Party would create jobs. We would put money in your pocket and create a greener, cheaper future.

The Climate for Jobs

Hundreds of thousands of jobs are needed to prepare us for the switch from oil and coal. The Wales Green Party will establish public building projects in every community that will employ people to:

- make all homes in Britain energy efficient
- develop more solar powered buildings
- Rebuild the rail link between North and South Wales through either Aberystwyth or Brecon
- create more frequent, affordable and greener public transport.

Keeping Bills Down

As the cost of energy increases, many of us will be struggling to pay fuel bills. Green Party councillors have helped residents to monitor their energy use with smart meters. We would do this and more: providing modern insulation for every hospital, school and home that needs it.

Changing the Climate

Climate change is the biggest threat our planet faces. Only the Wales Green Party will stop using coal, oil and nuclear power.

Public Transport and Cleaner Air

We will cancel the road building programme, such as the M4 motorway around Newport and Cardiff Airport link road, and instead invest in safer roads and in helping many more people to walk and cycle. After fierce lobbying in London Green Assembly members ensured that all new London buses will run on hybrid engines by 2012, creating a third less pollution. We would repeat this success in Wales. We would create travel plans for workers and invest more money to promote car sharing.

Getting Back on Track

The Green Party would bring the railways back under public control. We would create more jobs by expanding rail networks.

The Government has failed to combat increasing air travel. Unlike the other political parties we would say 'no' to further expansion of Cardiff airports.

Green Party MEPs, Jean Lambert and Caroline Lucas, have won awards for their work on human rights and animal welfare. Caroline was also voted Politician of the Year in the 2007 Observer Newspaper Ethical Awards.

A Fairer Deal, Fewer Weapons

You can help the Wales Green Party create a world where a war on poverty is more important than a 'war on terror'.

Pensioners' Income

The Green Party would raise pensioners out of poverty. We would introduce a Citizens' Pension for everyone: raising the state pension for a single person from £95.25 per week to £165.00 per week.

Fair Pay

We want to end poverty in hard working households. In London, Oxford and Norwich, the Green Party made councils pay a fair wage to all staff. We want to see this happen across Welsh communities.

A Call On Arms

Green Party MEPs in Europe persuaded other MEPs to call for a ban on depleted uranium weapons and cluster munitions. We would control and reduce the sale of our weapons around the world, and those on our streets.

No ID Cards

The Green Party would not use a 'war on terror' to destroy our rights to a private life. We would stop the ID card scheme.

Going Local

The Wales Green Party believes that smaller businesses and local enterprises make our communities stronger.

Increasing numbers of supermarkets and shopping centres have meant fewer local shops and businesses. In Oxford we used the planning system to favour small local enterprises. We would create community banks to help smaller traders survive the recession.

Growing Local

As well as using planning laws to create and save allotments, we'd change the rules so schools and hospitals can buy more local food.

Green Party councillors in Kirklees, North of England, have provided free home insulation (worth up to £400) to 40,000 households. This means an average saving of £150 per year for each household. Councillors have also set up a Renewable Energy Fund so buildings in Kirklees are now generating 5% of the UK's total solar electricity.

Etholiadau Ewrop Mehefin 4ydd

Dyfodol Disglair Gwyrdd

Pleidleisiwch dros y Gwyrddion yng Nghymru

Mae'r Gwyrddion yn Cyflawni

Pan gaiff Gwyrddion eu hethol, mae pobl yn hoffi'r hyn maen nhw'n ei gael ac yn pleidleisio am fwy. Dyma rai enghreifftiau o'n gwaith:

Mae ASEau Gwyrdd wedi:

- gorfodi gwaharddiad ar gemegolion peryglus mewn teganau plant
- ennill cefnogaeth seneddol i ymchwiliad i fonopolïau archfarchnadoedd
- sicrhau gwell amodau i anifeiliaid fferm Ewrop
- gorfodi ymchwiliad i gymorthdaliadau llywodraeth y DG i ynni niwclear
- ymladd yn galed dros hawliau grwpiau lleiafrifol
- galw am gydnabod yr effaith y mae gweithio oriau hir yn ei gael ar ein hiechyd.

Mae Gwyrddion o gwmpas y DG:

• wedi codi £3 miliwn ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd yn Kirklees
• wedi darparu £700,000 ar gyfer arbed ynni mewn cartrefi yn Norwich
• wedi codi £320,000 ar gyfer mannau chwarae yn Rhydychen.

Mae Gwyrddion yn Llundain:

• wedi helpu i gyflwyno Cyflog Byw i fynd i'r afael â thlodi cyflog
• wedi treblu'r arian sydd ar gael ar gyfer gwella beicio a cherdded o amgylch y ddinas.

Delio â'r Economi: *Bargen Newydd Werdd*

Byddai Plaid Werdd Cymru'n creu swyddi. Byddem yn rhoi arian yn eich poced ac yn creu dyfodol gwyrddach, rhatach.

Yr Hinsawdd ar gyfer Swyddi

Mae angen cannoedd o filoedd o swyddi i'n paratoi ar gyfer y newid o olew a glo. Bydd Plaid Werdd Cymru'n sefydlu prosiectau adeiladu cyhoeddus ym mhob cymuned a fydd yn cyflogi pobl i:

• wneud pob cartref ym Mhrydain yn effeithiol o ran ynni
• datblygu mwy o adeiladau ag ynni solar
• Ailadeiladu'r cyswllt rheilffordd rhwng Gogledd a De Cymru naill ai drwy Aberystwyth neu Aberhonddu
• creu cludiant cyhoeddus amlach, mwy fforddiadwy a mwy gwyrdd.

Cadw Biliau i Lawr

Wrth i gost ynni gynyddu, bydd llawer ohonom yn cael trafferth i dalu'n biliau tanwydd. Mae cynghorwyr y Blaid Werdd wedi helpu trigolion i fonitro eu defnydd o ynni gyda mesuryddion clyfar. Byddem yn gwneud hyn a mwy: darparu inswleiddio modern ar gyfer pob ysbyty, ysgol a chartref sydd angen hynny.

Newid yr Hinsawdd

Newid yn yr hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf sy'n wynebu ein planed. Dim ond Plaid Werdd Cymru fydd yn rhoi terfyn ar ddefnyddio glo, olew ac ynni niwclear.

Cludiant Cyhoeddus ac Aer Glanach

Byddwn yn canslo'r rhaglen adeiladu ffyrdd, fel traffordd yr M4 o gwmpas Casnewydd a ffordd gyswllt Maes Awyr Caerdydd, ac yn lle hynny yn buddsoddi mewn ffyrdd mwy diogel ac mewn helpu llawer mwy o bobl i gerdded a beicio. Ar ôl lobïo ffyrnig yn Llundain sicrhaodd aelodau Gwyrdd y Cynulliad y bydd pob bws newydd yn Llundain yn rhedeg ar beiriannau hybrid erbyn 2012, gan greu traean yn llai o lygredd. Byddem yn ailadrodd y llwyddiant hwn yng Nghymru. Byddem yn creu cynlluniau teithio ar gyfer gweithwyr ac yn buddsoddi rhagor o arian i hyrwyddo rhannu ceir.

Dod Nôl ar y Cledrau

Bydda'i Blaid Werdd yn dod â'r rheilffyrdd yn ôl dan reolaeth gyhoeddus. Byddem yn creu rhagor o swyddi drwy ehangu rhwydweithiau rheilffordd.
Mae'r Llywodraeth wedi methu gwrthsefyll y cynnydd mewn teithio awyr.
Yn wahanol i'r pleidiau gwleidyddol eraill byddem yn dweud 'na' i ehangu meysydd awyr Caerdydd ymhellach.

Bargen Decach, Llai o Arfau

Gallwch helpu Plaid Werdd Cymru i greu byd lle mae rhyfel yn erbyn tlodi yn bwysicach na 'rhyfel yn erbyn terfysgaeth'.

Incwm Pensiynwyr

Byddai'r Blaid Werdd yn codi pensiynwyr allan o dlodi. Byddem yn cyflwyno Pensiwn Dinesydd i bawb: gan godi pensiwn y wladwriaeth ar gyfer person sengl o £95.25 yr wythnos i £165.00 yr wythnos.

Cyflog Teg

Rydym eisiau rhoi terfyn ar dlodi mewn cartrefi sy'n gweithio'n galed. Yn Llundain, Rhydychen a Norwich, mae'r Blaid Werdd wedi gwneud i'r cynghorau dalu cyflog teg i'w holl staff. Rydym eisiau gweld hyn yn digwydd ar draws cymunedau Cymru.

Galwad at Arfau

Perswadiodd ASEau'r Blaid Werdd yn Ewrop ASEau eraill i alw am waharddiad ar arfau wraniwm diffygiol ac arfau rhyfel clystyrog. Byddem yn rheoli ac yn lleihau ein gwerthiant arfau ledled y byd, a'r rheiny sydd ar ein strydoedd.

Dim Cardiau Adnabod

Ni fyddai'r Blaid Werdd yn defnyddio 'rhyfel yn erbyn terfysgaeth' i ddinistrio ein hawliau i fywyd preifat. Byddem yn rhoi terfyn ar y cynllun cardiau adnabod.



Mae ASEau'r Blaid Werdd, Jean Lambert a Caroline Lucas, wedi ennill gwobrau am eu gwaith ar hawliau dynol a lles anifeiliaid. Enillodd Caroline hefyd y bleidlais am Wleidydd y Flwyddyn yng Ngwobrau Moesegol Papur Newydd yr Observer yn 2007.

Mynd yn Lleol

Mae Plaid Werdd Cymru'n credu bod busnesau llai a mentrau lleol yn gwneud ein cymunedau'n gryfach.

Mae niferoedd cynyddol o archfarchnadoedd a chanolfannau siopa wedi golygu llai o siopau a busnesau lleol. Yn Rhydychen fe ddefnyddion ni'r system gynllunio i ffafrio mentrau bach lleol. Byddem yn creu banciau cymunedol i helpu masnachwyr bach i oroesi'r dirwasgiad.

Tyfu'n Lleol

Yn ogystal â defnyddio deddfau cynllunio i greu ac arbed rhandiroedd, byddem yn newid y rheolau fel y gall ysgolion ac ysbytai brynu mwy o fwyd lleol.

Mae cynghorwyr y Blaid Werdd yn Kirklees, Gogledd Lloegr, wedi cynnig inswleiddio cartrefi am ddim (gwerth hyd at £400) i 40,000 o gartrefi. Mae hyn yn golygu arbediad o £150 y flwyddyn ar gyfartaledd i bob cartref. Mae cynghorwyr hefyd wedi sefydlu Cronfa Ynni Adnewyddadwy fel bod adeiladau yn Kirklees nawr yn cynhyrchu 5% o holl drydan solar y DG.